



02 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Chwefror ynghylch y rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Rwy'n nodi fy ymateb i'ch cwestiynau isod, gyda dyfyniadau o'ch llythyr mewn testun italig, yn ôl yr angen, er mwyn gosod y cyd-destun.

- 1. Rydym o'r farn ei bod yn gam sylweddol ymlaen o ran tryloywder bod y rhan fwyaf o fframweithiau cyffredin dros dro, bellach wedi'u cyhoeddi. A fydddech chi cystal â chadarnhau a ydych yn disgwyl y bydd yr holl fframweithiau cyffredin yn cael eu cyhoeddi – ar ffurf dros dro, o leiaf – erbyn bod Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cael ei ddidymu, ac eithrio'r fframweithiau ar gyfer cydnabod cymwysterau a gwasanaethau proffesiynol?**

Mae swyddogion yn parhau i weithio i ddatblygu gweddill y Fframweithiau hyn yn barod i gael eu cyhoeddi er mwyn craffu arnynt. Mae'r amserlen yn parhau i fod yn heriol fodd bynnag, yn arbennig ar gyfer y fframweithiau System Masnachu Allyriadau (ETS) ac Adnoddau a Gwastraff.

### **Tryloywder ac atebolrwydd**

*'Fe wnaethom eich holi ynghylch sicrhau bod y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu deall fframweithiau cyffredin, a'u heffaith ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu eich ymatebion ynghylch y canlynol yn fawr:*

- *hysbysu'r Senedd pan fo deddfwriaeth yn ymwneud â fframwaith cyffredin;*
- *hysbysu'r Senedd pan fydd anghydfod ynghylch fframwaith cyffredin yn cael ei gyfeirio at Weinidogion;*
- *hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan fydd fframwaith cyffredin yn cael ei adolygu, a dwyn eu hargymhellion i ystyriaeth cyn i'r broses adolygu ddod i ben; a*
- *chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar bob fframwaith cyffredin unigol.'*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales](mailto:Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**2. A fydddech chi cystal â chadarnhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cadw at yr ymrwymadau hyn, ac yn nodi'n ysgrifenedig y prosesau y byddwch yn eu dilyn?**

Rwy'n cadarnhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cadw at yr ymrwymadau hyn i hysbysu'r Senedd ac y bydd y Pwyllgorau perthnasol yn cael eu hysbysu drwy lythyr ar yr achlysuron hyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar lefel swyddogol ar hyn o bryd i benderfynu ar union ffurf y system adrodd flynyddol.

*'At hynny, fe wnaethom holi ynghylch bodloni eich ymrwymiad yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i 'gael tudalen ddynodedig ar ei gwefan yn cynnwys gwybodaeth am gytundebau rhynglywodraethol ffurfiol, fframweithiau cyffredin, concordatiau, memoranda ac unrhyw benderfyniadau eraill y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arnynt.' Fe wnaethoch esbonio y byddai fframweithiau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.'*

**3. O ystyried bod fframweithiau cyffredin wedi bod ar waith ers dros flwyddyn bellach, rydym yn ystyried nad yw hyn yn ddigon tryloyw. Rydym o'r farn y dylid sefydlu tudalen o'r fath cyn gynted â phosibl, hyd yn oed os ydych yn ystyried ei bod o fudd i ddarparu dolenni i wefan Llywodraeth y DU hyd nes bod y fframweithiau wedi'u cwblhau. A fyddwch chi cystal â chadarnhau'r dyddiad y disgwyliwch i hon fod ar gael?**

Mae tudalen we [Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol](#) ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Y bwriad ar hyn o bryd yw ychwanegu Fframweithiau Cyffredin at y wefan hon pan fydd y mwyafrif ohonynt yn derfynol. Mae swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd i bennu amserlen ar gyfer ychwanegu'r dolenni presennol at y fframweithiau i'r wefan yn y cyfamser. Rwy'n ymrwymo i ddiweddarau'r Pwyllgor pan fydd hyn wedi digwydd.

***Gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau***

*'Buom yn trafod sut y bydd y pedair llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ac yn datrys anghydfodau drwy fframweithiau cyffredin. Nid yw fframweithiau cyffredin yn darparu ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid yn rheolaidd mewn prosesau gwneud penderfyniadau rhynglywodraethol.'*

**4. A fydddech chi cystal ag egluro'r rhesymau dros y dull hwn? Sut fyddwch hi'n hysbysu rhanddeiliaid yn rheolaidd am drafodaethau rhynglywodraethol drwy fframweithiau cyffredin?**

Bydd ymgynghoriadau'n parhau i gael eu cynnal gyda rhanddeiliaid ar ddatblygiadau mewn polisiâu yn y ffordd arferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hysbysu rhanddeiliaid o bwyntiau adolygu nesaf y Fframweithiau Cyffredin ac o unrhyw argymhellion gan y Senedd.

**5. Mae rhai fframweithiau cyffredin yn darparu ar gyfer gohirio'r broses o lunio deddfwriaeth neu bolisi hyd nes bod y pedair llywodraeth wedi cytuno ar sut i symud ymlaen. Pa risgiau ydych chi wedi'u nodi o ran y dull hwn?**

Rydym o'r farn bod hwn yn safbwynt synhwyrol o ystyried manteision dull pedair llywodraeth wrth ystyried ac o bosibl gweithredu polisi yn y meysydd hyn.

**6. A oes unrhyw un o bolisiâu neu fentrau Llywodraeth Cymru wedi'u gohirio oherwydd y broses fframweithiau cyffredin?**

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw oedi, a byddwn yn synnu pe bai wedi digwydd gan fod prosesau'r Fframweithiau Cyffredin bellach yn rhan gynhenid o sut y caiff polisi ei ddatblygu yn y meysydd lle maent yn berthnasol.

**Materion trawsbynciol**

*'Buom yn trafod y cytundeb rhynglywodraethol ar y broses ar gyfer cytuno ar eithriadau o Ddeddf y Farchnad Fewnol mewn meysydd fframwaith cyffredin, a'r cytundeb ar destun safonol ar gyfer fframweithiau cyffredin ar rwymedigaethau rhyngwladol a chytundebau rhwng y DU a'r UE. Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth ynghylch y modd y bydd y prosesau hyn yn gweithio'n ymarferol.'*

**Deddf Marchnad Fewnol y DU**

**7. A yw Llywodraeth Cymru yn ceisio – neu a yw'n bwriadu ceisio – unrhyw eithriadau drwy'r broses ar gyfer cytuno ar eithriadau o'r Ddeddf Marchnad Fewnol, mewn meysydd fframwaith cyffredin?**

Nid oes unrhyw gais am eithriadau wedi cael ei wneud eto gan Lywodraeth Cymru, ond byddai'n rhaid i bob eithriad ddilyn y broses fel y'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

**8. A yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cais Llywodraeth yr Alban am eithriad o'r Ddeddf at ddibenion deddfwriaeth plastigau untro?**

Ydy, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cais Llywodraeth yr Alban am eithriad o'r Ddeddf ar gyfer deddfwriaeth plastigau untro.

**9. Pa egwyddorion neu dystiolaeth fyddai Llywodraeth Cymru yn dibynnu arnynt pe bai'n ceisio eithriad?**

Byddai eithriadau'n cael eu datblygu drwy'r broses Fframweithiau Cyffredin gyda'r parti neu'r partïon sy'n gwneud cais am eithriad yn darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer aelodau'r grŵp, gan amlaf yn unol â'r meini prawf sy'n ymwneud â datblygu polisi yn y meysydd hyn.

**10. A fyddai Llywodraeth Cymru yn debygol o geisio am eithriadau eang o feysydd polisi cyfan, neu eithriadau o eitemau penodol o ddeddfwriaeth?**

Mae'n rhy gynnar i wneud sylw ar hyn. Bydd y dull a ddewisir yn benodol i bob fframwaith.

**11. Wrth pa gam yn y datblygiad polisi neu'r broses ddeddfwriaethol fyddai Llywodraeth Cymru yn ceisio eithriad?**

Bydd hyn yn amrywio o un fframwaith i'r llall.

**12. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan fydd yn ceisio eithriad?**

Byddwn yn disgwyl i Weinidogion y portffolios hysbysu pwyllgorau, a rhanddeiliaid fel y bo'n briodol, o eithriadau yn yr un ffordd ag y byddent yn eu hysbysu o unrhyw ddatblygiad polisi arwyddocaol.

### **13. A ydych yn ystyried y dylai fframweithiau terfynol gyfeirio at y broses eithrio?**

Nid yw'n fwriad ar hyn o bryd i'r fframweithiau gyfeirio at y broses eithrio.

## **Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau**

### **14. Pa bryderon – os o gwbl – sydd gennych am effaith Bil Rheoli Cymorthdaliadau'r DU ar unrhyw fframweithiau cyffredin?**

Un o'r prif bryderon y mae Llywodraeth Cymru wedi'u codi o ran y Bil Rheoli Cymorthdaliadau yw'r diffyg eglurder a manylion ar wyneb y Bil. Mae nifer o'r darpariaethau'n ddarostyngedig i newid drwy'r defnydd o is-ddeddfwriaeth, a bydd llawer o'r prif fanylion o sut y bydd y Bil yn gweithio'n ymarferol yn cael eu cynnwys o fewn yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Felly, mae'n anodd ar hyn o bryd i gael syniad clir o ba effaith bosibl y bydd y Bil yn ei chael ar unrhyw fframweithiau cyffredin.

## **Y Bil Cymwysterau Proffesiynol**

### **15. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y Bil Cymwysterau Proffesiynol ar unrhyw fframweithiau cyffredin?**

Rydym yn gweithio i edrych ar ba effaith, os o gwbl, y bydd y Bil Cymwysterau Proffesiynol yn ei chael ar y Fframwaith Cyffredin Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol.

## **Rhwymedigaethau rhyngwladol**

### **16. Nodoch fod y DU yn wynebu anawsterau o ran rhwymedigaethau rhyngwladol. A fydddech chi cystal â rhoi manylion unrhyw anawsterau yr ydych wedi'u nodi sy'n deillio o rwymedigaethau rhyngwladol, yn enwedig mewn meysydd datganoledig neu mewn meysydd sy'n effeithio ar Gymru?**

Mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol newydd sy'n codi yn sgil gweithredu Cytundebau Masnach Rydd yn cael ei negodi gan Lywodraeth y DU, nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw anawsterau sy'n codi o'r bargeinion a lofnodwyd hyd yma. Fodd bynnag, wrth i negodiadau newydd gael eu cynnal, dros amser mae'n bosibl y bydd angen inni weithredu rhwymedigaethau nad ydynt o anghenraid yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau polisi domestig. Mae swyddogion yn trafod gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod ein safbwyntiau ar negodiadau'n glir, ac i geisio osgoi sefyllfa lle mae bargaen fasnachu'n gosod rhwymedigaeth arnom ni na allwn, neu nad ydym yn dymuno, ei weithredu.

### **17. Mae'r testun y cytunwyd arno ar rwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer fframweithiau cyffredin yn awgrymu y bydd fframweithiau'n seiliedig ar Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddarau, ar ôl i'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ddod i ben. A oes cynlluniau i ddiweddarau'r concordat hwn, ac a ydych chi o'r farn bod unrhyw risgiau os na chytunir ar goncordat wedi'i ddiweddarau?**

Ym mis Ionawr 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau a ddeilliodd o'r cydadolygiad ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol fel sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol. Er nad yw'r pecyn o ddiwygiadau'n disodli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli yn llwyr, disgwylir y bydd hon yn dod yn ddogfen segur ar y cyfan. Yn y dyfodol, ein gobaith yw y bydd yr Adolygiad a'r pecyn o ddiwygiadau yn cael eu codeiddio mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd, os bydd yr holl lywodraethau'n cytuno, yn seiliedig ar statud. Am nawr, caiff fformiwla polisi rhyngwladol ei ddatblygu yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol ar Ddatganoli, a'i Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol cysylltiedig. Caiff rhwymedigaethau rhyngwladol eu gweithredu yn unol â'r cytundebau hyn. Yn hyn o beth, bydd y partïon yn gwneud defnydd awtomatig o unrhyw Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddarau, a chanlyniadau ehangach y cydadolygiad ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol, fel sail ar gyfer ystyriaethau rhyngwladol o'r fath.

**18. Mae'r testun y cytunwyd arno ar rwymedigaethau rhyngwladol yn nodi y bydd y llywodraethau'n ystyried unrhyw oblygiadau sy'n deillio o fasnach rhyngwladol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar weithrediad y fframwaith cyffredin. A ydych chi o'r farn bod hyn yn rhoi cyfranogiad digonol i Lywodraeth Cymru yn y broses o drafod cytundebau masnach rhyngwladol mewn meysydd fframwaith cyffredin?**

Byddem yn disgwyl i dimau polisi'r Fframweithiau Cyffredin yn Llywodraeth Cymru hybu buddiannau Cymru yn y meysydd hyn drwy grwpiau'r fframweithiau. Mae datblygu fframweithiau wedi cynyddu'r cwmpas ar gyfer rhyngweithio rhwng timau polisi perthnasol y pedair llywodraeth.

## **Rhwymedigaethau'r DU a'r UE**

**19. Mae'r testun y cytunwyd arno mewn rhai fframweithiau cyffredin yn disgrifio'r ddarpariaeth ar gyfer presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd a sefydlwyd gan fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE. Sut fyddwch chi'n sicrhau y bydd timau polisi Llywodraeth Cymru mewn meysydd fframwaith cyffredin yn cydgysylltu â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE?**

Ni fwriadwyd i Fframweithiau Cyffredin ddarparu mwy o ymgysylltiad ar faterion sy'n ymwneud â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a'r strwythurau llywodraethu o fewn iddo. Nid dyna yw eu diben. Fodd bynnag, mae'r ymgysylltiad gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Pwyllgorau Arbenigol a gaiff eu sefydlu gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, yn dda ar y cyfan. Wedi dweud hynny, dylai'r ffaith bod Fframweithiau Cyffredin yn cefnogi cysylltiadau rhynglywodraethol gwell helpu i ymwreiddio'r ymgysylltiad da ar y cyfan rydym wedi'i weld ar faterion llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu hyd yma.

Mae timau polisi a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer pwyllgorau arbenigol a gweithgorau. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau ar eitemau agenda posibl, a mewnbwn i'r safbwyntiau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu mynegi ar y materion sy'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd. Os bydd timau polisi'n dymuno mynd i'r cyfarfodydd, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i hwyluso hyn. Mewn rhai achosion, disgwylir i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau – felly, er enghraifft, dylai cynrychiolwyr o dîm polisi pysgodfeydd Llywodraeth Cymru, yn unol

â'r Fframwaith Pysgodfeydd, ddisgwyl mynd i gyfarfod y pwyllgor ar bysgodfeydd, pan fo eitem yn ymwneud â gweithredu mewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Yn achos pysgodfeydd, mae wedi'i ddatganoli'n eang ar draws y DU.

**20. Mae testun y cytunwyd arno ar Brotocol Gogledd Iwerddon yn nodi, os bydd y gyfraith mewn maes fframwaith cyffredin yn newid yng Ngogledd Iwerddon yn rhinwedd y Protocol, y bydd y pedair llywodraeth yn ystyried goblygiadau'r newid hwnnw ym Mhrydain Fawr ac a ddylid cymryd camau. Wrth pa gam ym mhroses ddeddfwriaethol yr UE y bydd y pedair llywodraeth yn gwneud hynny?**

Byddem yn edrych ar achosion unigol ac yn gwneud penderfyniad yn nes at yr amser, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid yn Lloegr ac yn yr Alban.

**21. Mae rhai rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon wedi [codi pryderon](#) ynghylch y graddau cyfyngedig y mae fframweithiau cyffredin yn ystyried cysylltiadau trawsffiniol ar ynys Iwerddon. Pa ystyriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei rhoi i'r mater hwn wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo fframweithiau cyffredin?**

Mae'r pedair gwlad yn drafftio ac yn cytuno ar y fframweithiau, gan fod yn sensitif i'r materion sy'n effeithio or Ogledd Iwerddon. Ni ellir cyhoeddi unrhyw fframwaith heb i Weinidogion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon roi eu caniatâd. Yn achos fframweithiau terfynol, rhaid i Brif Weinidog a dirprwy Brif Weinidog Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon roi eu caniatâd.

## **Newidiadau i statws cyfraith yr UE a ddargedwir**

**22. Gwnaethoch nodi eich ymateb cychwynnol i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch cynlluniau i ddeddfu ar statws cyfraith yr UE a ddargedwir. Beth yw eich asesiad o'r graddau y mae newid statws cyfreithiol y corff o gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn cymhwysedd datganoledig, wedi'i ddatganoli?**

Gan nad oes rhagor o fanylion ynghylch pa gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n parhau ar y llyfr statud, a manylion yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig, mae'n anodd asesu'r effaith ar feysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Byddem yn disgwyl i'r adolygiad o gyfraith yr UE a ddargedwir fod yn berthnasol mewn nifer o feysydd datganoledig, yn bennaf yr amgylchedd a materion gwledig.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod cyfyngiad cyffredinol o fewn paragraff 5 o atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hwn yn atal darpariaeth un o ddeddfau'r Senedd rhag gwneud addasiadau i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a oedd yn ymgorffori cyfraith yr UE fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020 i gyfraith y DU fel cyfraith yr UE a ddargedwir ac yn amlinellu ei statws presennol.

**23. A ydych chi o'r farn bod angen newid statws y gyfraith honno? Os felly, pam y dylid ei newid, a sut y dylid gwneud hynny? Os nad, pam felly?**

Er y cydnabyddir bod statws presennol cyfraith yr UE a ddargedwir yn gymhleth, fel y mae rhai o'r nodweddion a amlinellir o fewn Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, heb ragor o fanylion am beth y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig, mae'n anodd asesu unrhyw effaith bosibl ar yr adolygiad o statws a'r dull gweithredu y gallem ddymuno ei fabwysiadu. Fodd bynnag, bydd sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu trin neu gategoreiddio cyfraith

yr UE a ddargedwir a'r goblygiadau i Gymru, o ddiddordeb mawr. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos, a rhoi unrhyw wybodaeth newydd i'r Senedd yn rheolaidd.

**24. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi cynlluniau i alluogi diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yn gyflymach. A fydddech chi cystal â chadarnhau y bydd unrhyw newidiadau o'r fath mewn meysydd fframwaith cyffredin yn cael eu rheoli drwy fframweithiau cyffredin?**

Pan ceir unrhyw newid arfaethedig i ddarn o gyfraith yr UE a ddargedwir, a bod pwnc y gyfraith honno a ddargedwir yn cael ei gwmpasu yn y fframwaith, byddem yn disgwyl i broses y fframwaith cyffredin fod yn berthnasol.

**Dargyfeirio o gyfraith yr UE yn y dyfodol**

*“Dywedoch y dylai Llywodraeth Cymru gadw safonau'r UE o leiaf, a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal safonau a gwella arnynt. At hynny, gwnaethoch gadarnhau na fydd Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig i gyfraith yr UE ar waed, meinweoedd a chelloedd oherwydd bod dull ar y cyd ar gyfer y DU yn cael ei ffafrio. Yn eich gohebiaeth gyda ni ym mis Tachwedd, dywedoch nad oes gan Lywodraeth Cymru “fecanwaith canolog” i fonitro gwahaniaethau rhwng cyfraith yr UE a chyfraith Cymru.”*

**25. Heb fecanwaith canolog, sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cyfraith yr UE er mwyn dysgu am a deall gwahaniaethau a allai ddatblygu rhwng cyfraith Cymru a chyfraith yr UE?**

Mewn meysydd a gwmpesir gan y Fframweithiau Cyffredin, a thrwy gymryd rhan mewn negodiadau gyda'r UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'u swyddogion cyfatebol yn llywodraethau eraill y DU, ac yn rhannu gwybodaeth, gan gynnwys ar ddatblygiadau perthnasol yng nghyfraith yr UE a goblygiadau Protocol Gogledd Iwerddon.

**26. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o'r risgiau y bydd dargyfeiriad anwirfoddol neu 'oddefol' yn datblygu rhwng cyfraith yr UE a chyfraith Cymru?**

Mae dal i fod yn gynnar iawn yn y broses hon o ddargyfeiriad posibl, ac mae gwybodaeth yn cael ei datblygu mewn modd tebyg i'r ateb blaenorol.

**27. Ar ba sail ydych chi'n asesu a fyddai dull gweithredu ar y cyd â rhannau eraill o'r DU – gan gadw i'r funud â chyfraith yr UE – neu ddeddfwriaeth Gymreig benodol yn well?**

Bydd hyn yn amrywio o un fframwaith i'r llall.

**28. Sut fydd eich dull yn amrywio mewn gwahanol feysydd, er enghraifft meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru neu feysydd sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau sefyllfa gydradd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?**

Bydd angen dull gweithredu pwrpasol yn dibynnu ar gyd-destun a blaenoriaethau pob maes fframwaith.

**29. A ydych chi o'r farn bod unrhyw risgiau y gallai gwneud penderfyniadau ar y cyd drwy fframweithiau cyffredin amharu ar uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i wella safonau?**

Gweler yr ateb i gwestiwn 5.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, reading "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style. Below the signature, there is a short horizontal line.

**Mick Antoniw AS/MS**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad  
Counsel General and Minister for the Constitution